



Fforwm Hil Cymru
Y Fforwm Cymunedau Ffydd
Y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol ar gyfer Troseddau Casineb
Cydgysylltydd Cydlyniant Cymunedol

5 Mehefin 2016

Annwyl bawb,

Gwn fod nifer o gymunedau yn pryderu am y cynnydd mewn troseddau casineb hiliol a chrefyddol ers y refferendwm ar Ewrop. Mae fy neges yn syml ac yn glir - nid ydym yn barod i oddef unrhyw ffurf ar droseddau casineb. Nid yw'r bleidlais o blaid gadael yn cyfiawnhau mewn unrhyw fodd y casineb yn erbyn lleiafrifoedd ethnig a phobl o wledydd y tu allan i Brydain. Mae'r Prif Weinidog wedi datgan barn y Llywodraeth hon ar y mater yn dilyn cyfarfod brys o'r Cabinet.

<http://gov.wales/newsroom/firstminister/2016/160627cabinetstatement/?skip=1&lang=cy>

Fy neges i i gymunedau yw'r angen i ni gefnogi ein gilydd a chysylltu â'r Heddlu os byddwch yn profi neu'n dyst i unrhyw ffurf ar gasineb neu gamwahaniaethu. Fel arall, gall pobl gysylltu hefyd â'r Ganolfan Genedlaethol Adrodd am Droseddau Casineb a'r Ganolfan Gymorth drwy ffonio 0300 30 31 982 neu sefydliadau cydraddoldeb hiliol ledled Cymru megis un o'r sefydliadau y mae aelodau'n Grŵp Cydraddoldeb Cymru yn aelod ohonynt. Os na fydd neb yn herio'r digwyddiadau neu'r troseddau hyn yna bydd eu heffaith negyddol yn cronni.

Rwy'n dal i weithio gyda'r Comisiynwyr Heddlu a Throseddau ac rwyf hefyd wedi bod yng nghyfarfodydd Grŵp Plismona Cymru Gyfan lle codais y mater ynghylch y cynnydd yn nifer y troseddau casineb a phwysigrwydd ymateb yn briodol. Mae hyn yn dilyn llythyr gan y Prif Weinidog at y Comisiynwyr i sicrhau ein bod yn cydweithio â'n gilydd er mwyn bod yn effro i'r sefyllfa sydd ohoni. Rwyf wedi gofyn i fy swyddogion gwrdd ag aelodau Fforwm Hil Cymru i drafod ymateb yn effeithiol a sicrhau y gallwn ni i gyd weithio gyda'n gilydd i roi negeseuon clir a chymorth.

Mae Cymru bob amser wedi bod yn wlad groesawgar ac ni fydd hyn yn newid. Does dim wedi newid o ran statws gwladolion tramor sy'n byw ac yn gweithio yng Nghymru. Mae croeso iddynt o hyd fel y bu erioed. Mae'r Prif Weinidog wedi ymweld â Chymdeithas Pwyliaid Cymru yn Llanelli a'r Tîm Cymorth Ieuenctid Ethnig yn Abertawe yr wythnos yma i roi neges glir bod croeso i gymunedau o fewnfudwyr. Rwy'n llwyr gefnogi'r neges honno.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Carl.Sargeant@llyw.cymru
Correspondence.Carl.Sargeant@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Byddwn yn ddiolchgar petai modd i chi rannu neges gref y Llywodraeth yma ar fynd i'r afael â hiliaeth a throseddau casineb ac ar adeiladu Cymru gydlynol ymysg eich rhwydweithiau, eich ffrindiau a'ch teuluoedd. Mae Llywodraeth Cymru'n gwbl ymrwymedig o hyd i greu Cymru sy'n fwy cydradd, yn decach ac yn fwy cydlynol.

Yn gywir

A handwritten signature in black ink that reads "Carl Sargeant". The signature is written in a cursive, flowing style.

Carl Sargeant AC/AM

Ysgrifennydd y Cabinet dros Gymunedau a Phlant
Cabinet Secretary for Communities and Children